



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru)

Fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru

Tachwedd 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	1
2. Cwmpas a'r Awdurdod Goruchwyllo	4
3. Cofrestr Asedau a Chofrestr Gweithwyr Proffesiynol	6
4. Asesu'r Peryglon	12
5. Categorioidio	13
6. Clystyrau o Domenni a Chynlluniau Rheoli	15
7. Archwiliadau/Arfarniadau, Cynnal a Chadw a Chytundebau Cynnal a Chadw	17
8. Goruchwyllo, Gorfodi, Codi Tâl ac Apeliadau	20
9. Gweithgareddau ar Domenni Glo nas Defnyddir	21
10. Cwestiynau ychwanegol	24
Atodiad 1 – Rhestr o ymatebion i'r ymgynghoriad	29

1. Rhagarweiniad

Cefndir

- 1.1 Fe wnaeth stormydd Ciara, Denis a Jorge ym mis Chwefror 2020 ddangos yn glir yr effaith ddinistriol mae llifogydd yn gallu ei chael ar ein cymunedau. Ymhellach, dangosodd tirlithriad tomen lo nas defnyddir yn Tylorstown yn ystod Storm Denis effaith bosibl newid hinsawdd ar waddol mwyngloddio diwydiannol Cymru. Sefydlwyd Tasglu Diogelwch Tomenni Glo y Prif Weinidog yn fuan wedi tirlithriad Tylorstown i ddarparu rhaglen o waith, gan gynnwys adolygu diogelwch tomenni glo ar draws Cymru, archwiliadau a chynnal a chadw'r tomenni sydd wedi'u graddio'n uwch. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad polisi hefyd o'r trefniadau presennol ar gyfer goruchwylio diogelwch tomenni glo, gan gynnwys asesu effeithiolrwydd y fframwaith deddfwriaethol presennol.
- 1.2 Arweiniodd yr adolygiad cychwynnol hwn at Weinidogion Cymru'n gwahodd Comisiwn y Gyfraith i gynnal asesiad annibynnol o'r fframwaith deddfwriaethol perthnasol ar gyfer diogelwch tomenni glo a darparu argymhellion ar gyfer bil yn y dyfodol. Yn dilyn papur adolygu ac ymgynghori Comisiwn y Gyfraith *'Regulating for Coal Tip Safety in Wales'*¹, cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 24 Mawrth 2022². I grynhoi, canfu Comisiwn y Gyfraith fod y drefn bresennol yn ymwneud yn bennaf â diwydiant gweithredol ac nid yw'n briodol bellach ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir.
- 1.3 Daeth ymgynghoriad Papur Gwyn *Diogelwch Tomenni Glo (Cymru) – Fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru*³ yn sgil cyhoeddi adroddiad Comisiwn y Gyfraith, ac fe'i cynhaliwyd rhwng mis Mai ac Awst 2022. Pwysodd y Papur Gwyn ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac roedd yn cynnwys dadansoddiad pellach gan Lywodraeth Cymru o feysydd na chawsant sylw yn adroddiad y Comisiwn neu feysydd roedd wedi argymhell i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Nododd y Papur Gwyn ein hamcanion i fynd i'r afael â'r bylchau yn y drefn bresennol ar gyfer tomenni nas defnyddir, o dan ddarpariaethau Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 ('Deddf Tomenni'). Nododd y papur gynigion deddfwriaethol ar gyfer cyflwyno fframwaith rheoli statudol newydd i gefnogi diogelwch tomenni a helpu i liniaru effeithiau posibl newid hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys dull cyson newydd o reoli, monitro a goruchwylio tomenni glo nas defnyddir. Y nod yw diogelu cymunedau, seilwaith hanfodol a'r amgylchedd drwy gyflwyno rheolaeth briodol o domenni, a fydd yn helpu i leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau.
- 1.4 Gofynnodd y Papur Gwyn am farn ar elfennau allweddol y drefn statudol newydd arfaethedig ac mae'r ymatebion yn cael eu crynhoi ym Mhennod 2 – 10 y papur hwn.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

- 1.5 Gwahoddwyd barn fel rhan o gyfnod ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 12 Mai a 4 Awst 2022. Roedd ymatebwyr yn gallu ymateb drwy ffurflen arolwg ar-lein, cyfeiriad e-bost penodol neu drwy'r post.

¹ [Templed Dogfennau Comisiwn y Gyfraith](#)

² Comisiwn y Gyfraith 406, 24 Mawrth 2022, [Regulating-Coal-tip-safety-in-Wales-report.pdf](#)

³ [Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo \(Cymru\) | LLYW. CYMRU](#)

- 1.6 Mae'r strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer yr ymgynghoriad a adeiladwyd ar ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith yn 2021 ar *Reoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru*⁴. Ceisiodd Llywodraeth Cymru ymgysylltu â nifer o'r un rhanddeiliaid, yn ogystal â gofyn am farn cynulleidfa ehangach mewn perthynas â chynigion penodol.
- 1.7 Defnyddiwyd ystod helaeth o sianeli cyfathrebu i hysbysu pob sefydliad rhanddeiliaid targed o gyhoeddiad, cwmpas a hyd y Papur Gwyn. Roedd hyn yn cynnwys sianeli Llywodraeth Cymru; y cyfryngau; a sianeli rhanddeiliaid fel cylchlythyrau.
- 1.8 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru nifer o gyflwyniadau pwrpasol ar gynigion y Papur Gwyn er mwyn ymgysylltu â sbectwm eang o bartion â diddordeb gan gynnwys sefydliadau ffermio a thirfeddianwyr; diwydiannau echdynnu; ymchwilwyr academaidd; a phobl ifanc. Yn ogystal, cynhaliwyd dau ddigwyddiad cyhoeddus ar-lein hefyd.


Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 1.9 Derbyniodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 44 ymateb gan amrywiaeth o rhanddeiliaid. Daeth cyfanswm o 40 ymateb o Gymru, a phedwar gan ymatebwyr yn Lloegr.

Mae Siart 1 yn dangos trefn yr ymatebion o Gymru yn ôl ardal awdurdod lleol .

⁴ [Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru | Comisiwn y Gyfraith](#)


Siart 1 – Trefn ymatebion o Gymru yn ôl ardal awdurdod lleol



1.10 Gwahoddwyd yr holl ymatebwyr i ofyn a oeddent eisiau ymateb yn ddiennw, ac mae cyfraniadau deg ymatebydd yn ddiennw yn y ddogfen hon drwyddi draw.

1.11 Mae Siart 2 yn dangos nifer yr ymatebion yn ôl categori ymatebydd. Am restr lawn o'r sefydliadau a gyfrannodd at yr ymgynghoriad, gweler Atodiad 1.

Siart 2 – Nifer yr ymatebion yn ôl categori ymatebydd



2. Cwmpas a'r Awdurdod Goruchwylio

Cwestiwn 1

A ydych yn cytuno â'r ffordd y bwriedir mynd ati'n raddol dros amser i gynnwys tomenni nad ydynt yn domenni glo yn y gyfundrefn reoli, os bydd hynny'n briodol?

- 2.1 O'r 43 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 38 (88%) yn cytuno bod y cynnig i gynnwys tomenni nad ydynt yn domenni glo yn raddol dros amser yn briodol.
- 2.2 Ar y cyfan, mae llawer o'r ymatebwyr yn cytuno bod cynnwys tomenni nad ydynt yn domenni glo yn raddol yn ddull pragmatig, a fyddai'n blaenoriaethu diogelwch tomenni glo ac yn sicrhau nad yw mathau eraill o domenni a allai beri risg debyg yn cael eu hanwybyddu. Nododd yr ymatebwyr fanteision posibl y dull hwn, megis: gwella amddiffyniadau i bobl a'r amgylchedd; lleihau amwysedd; lleihau cymhlethdod a sicrhau diffiniadau ac arweiniad clir a chyson. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod y dull hwn yn gofyn am ystyriaeth ofalus a dull cymesur o ystyried anferthedd posibl y dasg a'r angen am sicrhau adnoddau posibl yn y dyfodol. Er enghraifft, nododd un ymatebydd: "...byddai'r dull hwn yn gofyn am goladu setiau data o ffynonellau sy'n anhysbys ar hyn o bryd".
- 2.3 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod y gallai'r dull priodol ar gyfer gwahanol fathau o safle geodechnegol amrywio. Mae gwahaniaethau daearyddol posibl hefyd, gydag un ymatebydd yn nodi:
- "Mae'r rhan fwyaf o domenni glo yng Nghymoedd y De, a thomenni sborion mwyngloddio eraill fel llechi a metelau trwm eraill yn ngogledd Cymru".*
- 2.4 Nododd un ymatebydd fod angen bwrw ymlaen yn sensitif gan fod "tomenni glo a thomenni nad ydyn nhw'n domenni glo yn hanesyddol o ran tarddiad ac yn meddu ar arwyddocâd treftadaeth bwysig". Dywedodd ymatebydd arall:
- "Mae angen ystyried a ddylai'r tomenni hyn nad ydyn nhw'n domenni glo gael blaenoriaeth dros domenni glo categori A a chategori B cymharol ddiniwed oherwydd lefel risg a diogelwch amgylcheddol eraill. Mae yna domenni sborion nad ydyn nhw'n domenni glo... y byddai modd eu dosbarthu fel tomen sy'n cyfateb i domen lo risg categori D".*
- 2.5 Nid oedd dau ymatebydd (5%) yn cefnogi'r cynnig. Nododd un ymatebydd y dylai cwmpas y ddeddfwriaeth ganolbwyntio ar domenni glo nas defnyddir yn unig, fel sy'n cael ei grybwyll yn nheitl y ddogfen ymgynghori, a pheidio â chyflwyno tomenni nad ydynt yn domenni glo 'drwy'r drws cefn'. Yn ogystal, roedd tri ymatebydd (7%) yn ansicr o'r dull arfaethedig, gydag un ymatebydd yn nodi bod angen astudiaeth ragarweiniol o domenni nad ydynt yn domenni glo yn gyntaf. Ar y cyfan, thema reolaidd oedd bod angen mwy o ddata cyn i benderfyniadau allweddol gael eu gwneud ar y broses ac amserlen ar gyfer ymgorffori tomenni nad ydynt yn domenni glo. Roedd nifer o'r ymatebwyr hefyd yn myfyrio ar sut y byddai'n ehangu'r gofynion adnoddau yn sylweddol ac efallai'n arwain at gollu ffocws ar y prif faterion.

2.6 Ni chafwyd ymateb gan un ymatebydd.

Cwestiwn 2

A ydych yn cytuno y dylai'r corff goruchwyllo newydd fod yn Gorff Gweithredol newydd a Noddir gan Lywodraeth Cymru?

2.7 O'r 41 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 36 (88%) yn cytuno gyda'r cynnig.

2.8 Yn fras, roedd yr ymatebwyr yn croesawu creu corff gweithredol a noddir gan Lywodraeth Cymru, gan gydnabod y byddai corff o'r fath yn darparu'r oruchwyliaeth annibynnol hyd braich sydd ei angen. Dywedodd un ymatebydd: *"Dylai'r Awdurdod Goruchwyllo fod yn rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau fel perchennog tomen..."*

2.9 Nododd ymatebwyr sawl buddiant ychwanegol, gan gynnwys:

- *"Sgiliau technegol arbenigol, sy'n gallu cynnig buddiant ychwanegol i awdurdodau lleol wrth reoli tomenni glo nas defnyddir"*.
- *"Cylch gwaith pwrpasol i sicrhau diogelwch tomenni nas defnyddir"*.
- *"Darparu goruchwyliaeth a monitro annibynnol i gydymffurfio â'r drefn newydd"*.
- *"Arbedion maint wrth gaffael gwasanaethau, casglu ymchwil a thystiolaeth a datblygu a rhannu arferion gorau ac arweiniad"*.

2.10 Roedd y sylwadau eraill yn cynnwys y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn atebol i Lywodraeth Cymru; dylai gynnig gwerth am arian a lefel uchel o arbenigedd. Yn ogystal, dywedodd un ymatebydd:

"Bydd angen i'r strwythur manwl sicrhau bod ei swyddogaethau wedi'u diffinio'n glir a bod bwch addas rhwng ei ddyletswyddau a'i bwerau a'i berthynas gyda holl berchnogion tomenni, gan gynnwys Ystâd Llywodraeth Cymru".

2.11 Nid oedd tri ymatebydd (7%) yn cefnogi'r cynnig. Un thema ychwanegol i ddod i'r amlwg yw'r prinder sgiliau cydnabyddedig o fewn y maes hwn, gydag ymatebydd yn nodi y bydd *"... creu corff gweithredol a noddir gan Lywodraeth Cymru" yn gwanhau'r maes arbenigedd hwn hyd yn oed ymhellach*". Roedd dau ymatebydd o'r farn mai'r Awdurdod Glo oedd y corff mwyaf addas i ddatblygu'r dyletswyddau newydd arfaethedig, gydag un ymatebydd yn nodi:

"Mae'r Awdurdod Glo wedi profi ei fod yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r arbenigedd" a

"Er ein bod yn gwerthfawrogi bod yr Awdurdod Glo'n gorff sy'n cwmpasu'r DU gyfan, mae'n gwneud synnwyr i fanteisio ar y maes arbenigedd hwn...".

2.12 Nododd dau ymatebydd (5%) eu bod yn ansicr ynglŷn â'r cynnig, gydag un yn dweud: *".... dylid gosod uchelgais o feithrin agwedd gyson at reoli diogelwch tomenni o amgylch y DU"*.

2.13 Ni chafwyd ymateb gan dri ymatebydd.

3. Cofrestr Asedau a Chofrestr Gweithwyr Proffesiynol

Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno y dylid cynnwys diffiniad o domen 'de minimis' yn y bil? Os ydych, pa nodweddion y dylid eu cynnwys?

- 3.1 O'r 37 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 33 (89%) yn cytuno gyda'r cynnig i gynnwys diffiniad tomen 'de minimis'.
- 3.2 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r priodoleddau a nodir yn y Papur Gwyn (hynny yw maint y domen, uchder y domen, graddiant y domen a graddiant y tir). Roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylid ehangu'r priodoleddau ymhellach. Er enghraifft, rhestrodd un ymatebydd y ffactorau canlynol:
- *“Agoswydd at y seilwaith a chyfarpar critigol, eiddo a derbynleoedd bregus eraill*
 - *Presenoldeb a chyflwr unrhyw seilwaith draenio presennol a'i bwysigrwydd mewn perthynas â chynnal uniondeb y domen*
 - *Dylid cyfyngu ar gyfaint y domen*
 - *Dylid cyfyngu ar uchder y domen*
 - *Dylid ystyried ei leoliad mewn perthynas â chysiau dŵr neu ffosydd a dylid adolygu'r gydberthynas rhwng y nodweddion hyn a'r tomenni*
 - *Dylid ystyried ei agoswydd at rediadau gwasanaethu a'r math o gyfleustod h.y. prif bibellau dŵr gwasgedd uchel.”*
- 3.3 Nododd nifer o'r ymatebwyr fod y diffiniad o 'de minimis' yn 'rhy fach i fod yn ystyrion' ac o'r farn y gallai hyn fod yn gamarweiniol gan fod tomen fach yn dal i allu peri risg. Awgrym pellach a fynegwyd gan rai ymatebwyr yw y byddai angen asesiad o berygl o hyd er mwyn cadarnhau statws y domen. Nododd un ymatebydd: *“...efallai y bydd angen ailedrych ar y diffiniad pan fydd y drefn yn ehangu i bob tomen nas defnyddir”*, gydag eraill yn holi a allai'r diffiniad ystyried effeithiau eraill, er enghraifft y potensial am lygredd neu effaith ar iechyd.
- 3.4 Roedd tri ymatebydd (11%) yn anghytuno â'r cynnig, gyda'r mwyafrif yn nodi y dylai'r diffiniad o domenni adlewyrchu'r asesiad risg *ar ôl* i arfarniad o'r domen gael ei gynnal, a bod hyd yn oed tomenni bach yn gallu achosi risg sylweddol o dan amgylchiadau penodol. Dywedodd un ymatebydd:
- *“Os yw'r risg yn 'ddibwys', yna dylai'r ffordd mae'n cael ei rheoli adlewyrchu hynny, e.e. cyfnodau hirach rhwng archwiliadau. Mae'n bwysig bod diffiniadau'r domen yn adlewyrchu'r sbectrwm cyfan o asesu risg, heb gael eu gwahanu oherwydd diffiniad cyfreithiol neu gamau cyfreithiol. Mae risg ddibwys heddiw yn gallu datblygu'n risg uchel yn y dyfodol os yw'r tir o amgylch neu'r drefn ddŵr yn newid, er enghraifft”.*

3.5 Ni chafwyd ymateb gan saith ymatebydd.

Cwestiwn 4

A ydych yn cytuno y dylai perchennog 'tomen de minimis' gael ei eithrio rhag y dyletswyddau a amlinellir? Os nad ydych, nodwch pam.

3.6 O'r 37 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 31 (84%) yn cytuno gyda'r cynnig y dylid eithrio perchennog 'tomen de minimis' o'r dyletswyddau a amlinellwyd.

3.7 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno yn gwneud hynny ar y sail bod yn rhaid dangos lefel risg ddi-nod neu ddibwys i domenni 'de minimis'. Mae hynny'n cael ei grynhoi gan y sylw canlynol:

"Ydw. Os yw'r trothwyon de minimis yn cael eu pennu er mwyn sicrhau nad yw'r tomenni dan sylw yn peri unrhyw risg sylweddol, yna ni ddylai fod angen nodi gofynion o ran archwiliadau, cynlluniau cynnal a chadw a rheoli...."

3.8 Yn ogystal, cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno at yr angen i allu cipio unrhyw newidiadau yn y dyfodol i domen 'de minimis', a rhoi'r cyfrifoldeb hwn ar ysgwyddau perchennog y domen. Nododd un ymatebydd:

"Mae'n bwysig cynnal dyletswydd perchennog tomen i roi gwybod am unrhyw newid i gyflwr a allai newid sut mae tomen yn perfformio, hyd yn oed tomen ['de minimis']".

3.9 Nododd ymatebydd pellach yr angen:

".... i osod gofynion sylfaenol neu ganllawiau arfer da mewn perthynas â rheoli tomenni islaw'r trothwy 'de minimis' yn ogystal â'r math o weithgareddau (hamdden neu arall) y mae modd eu cynnal ar y tomenni hyn."

3.10 Roedd chwe ymatebydd (16%) yn anghytuno â'r cynigion. Nododd traean o'r ymatebwyr hyn, er bod modd nodi tomen fel risg ddibwys, y gallai hyn newid yn y dyfodol ac y dylid parhau i'w monitro a/neu adolygu'r lefel risg. Nododd un ymatebydd:

"ni ddylai categoreiddio [de minimis] ddileu holl rwymedigaethau perchennog tomen, ond dylai'r gofynion fod yn llai beichus"

3.11 Nododd ymatebydd pellach:

"... dylai perchennog y domen gael ei gynnwys yn y dyletswyddau, gyda'r risg yn cael ei hadolygu wedi cyfnod a bennwyd gan yr adolygiad blaenorol".

3.12 Ni chafwyd ymateb gan saith ymatebydd.

Cwestiwn 5

A ydych yn cytuno â'r gofynion sylfaenol o ran yr hyn y dylid ei gynnwys yn y gofrestr? Os nad ydych, nodwch beth fyddai'r gofynion sylfaenol priodol yn eich barn chi?

- 3.13 O'r 38 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 26 (68%) yn cytuno gyda'r gofynion sylfaenol arfaethedig ar gyfer y gofrestr asedau.
- 3.14 Nododd nifer o'r ymatebwyr wybodaeth ychwanegol y gellid ei hystyried hefyd. Roedd yr wybodaeth honno'n cynnwys:
- seilwaith critigol/mawr cyfagos – ysgolion, canolfannau hamdden, ysbytai, ffyrdd etc. (2 ymatebydd)
 - gwybodaeth dopograffig (ac unrhyw ffotograffau o'r awyr) (2 ymatebydd)
 - (i) data ychwanegol, er enghraifft papurau gan gynnwys cronfa ddata Tirlithriad De Cymru a gedwir gan BGS, (ii) cyd-destun daearegol/hydroddaearegol, (iii) defnydd tir, a (iv) enwau amgen (1 ymatebydd)
 - Unrhyw weithrediadau hysbys yn y gorffennol ar y domen; dylai peryglon sylweddol gael eu nodi, ynghyd â llunio cynllun argyfwng ar wahân os oes angen (3 ymatebydd)
 - mesurau lliniaru, gan gynnwys enw'r parti cyfrifol priodol/perthnasol (3 ymatebydd)
 - *“dynodiadau amgylcheddol hanesyddol statudol a chyfeiriad at asedau treftadaeth nad ydynt wedi'u dynodi”; “gwybodaeth hanesyddol fel lleoliad gweithfeydd mwynloddio...”; “cofnodion o archwiliadau a chynnal a chadw hanesyddol”* (4 ymatebydd)
 - *“Byddai modd cynnwys ardal ddaearyddol neu Gynllun OS ar gyfer tomenni glo hefyd gan y byddai'n ychwanegu mwy o eglurder na rhif neu bwynt”.* (5 ymatebydd)
 - *“Os am gynnwys tomenni eraill nad ydyn nhw'n domenni glo, byddai diffiniad ar gynnwys y domen yn briodol.... Gellid ychwanegu'r Perchennog Hawliau Mwynau hefyd”.*
- 3.15 Cynigiodd chwe ymatebydd (16%) sylwadau ar wybodaeth perchnogaeth, yn arbennig y cysylltiad â Chofrestrfa Tir Ei Fawrhydi a sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. O bwysigrwydd arbennig oedd yr angen i gadw gwybodaeth am berchnogaeth yn gyfredol. Dywedodd dau ymatebydd y dylid cynnwys gwybodaeth am berchnogaeth tir gan fod yr wybodaeth hon yn berthnasol i ddiogelwch a rheolaeth tomenni.
- 3.16 Roedd pum ymatebydd (13%) yn anghytuno â'r gofynion sylfaenol arfaethedig. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn eu bod yn teimlo bod y gofynion sylfaenol arfaethedig yn gyfyngedig neu fod adran benodol ar goll. Awgrymwyd y canlynol gan ymatebwyr unigol fel pethau i'w cynnwys yn y gofynion sylfaenol arfaethedig:
- *“Priodoleddau safle... daeareg, amodau geotechnegol (etc.) ... a hanes blaenorol, yn enwedig unrhyw waith sydd wedi'i wneud”.*
 - *“Nid oes cyfeiriad at y gwaith diogelwch sylweddol i domenni (a hen safleoedd glofeydd) a gafodd ei wneud gan Adran Adfer Tir Awdurdod Datblygu Cymru”*

- *“Dylai hefyd fod gofyn i berchnogion tomenni ddal yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac i hynny gael ei lanlwytho i'r gofrestr yn flynyddol wrth iddo gael ei adnewyddu. Rydyn ni hefyd yn credu y dylid ychwanegu'r canlynol: Dyddiad yr adolygiad risg nesaf, asesiad risg newid hinsawdd, manylion yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, dolen i'r gofrestrfa tir, manylion cynllun ymateb brys ar gyfer y tomenni hynny sy'n gysylltiedig â risg sylweddol”.*
- *“Mae'r wybodaeth yn cael ei hystyried yn llawer rhy gyfyngedig. Dylid darparu gwybodaeth hefyd ar gyd-destun lleoliad, ardal, amcangyfrif o'r cyfaint, uchafswm uchder, dyddiad cychwyn a dyddiad gorffen”.*

3.17 Nododd un ymatebydd (3%) nad oedd yn cytuno bod angen cadw gwybodaeth am berchnogaeth ar y gofrestr ar y sail y byddai hyn yn dyblygu gwybodaeth sy'n cael ei chadw ar Gofrestrfa Tir Ei Fawrhydi. Roedd yr ymatebydd yn ystyried bod y rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â thomenni glo yn nwylo'r Awdurdod Glo ac nid y tiffeddiannwr.

3.18 Ni chafwyd ymateb gan chwe ymatebydd.

Cwestiwn 6

A ydych yn cytuno â'r hyn y bwriedir ei wneud o ran ychwanegu tomenni newydd at y gofrestr?

3.19 O'r 38 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 36 (97%) yn cytuno gyda'r dull arfaethedig o ychwanegu tomenni at y gofrestr.

3.20 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod yr angen posibl i ychwanegu tomenni sborion nad ydynt yn domenni glo i'r gofrestr. Nododd un ymatebydd fod tomenni o'r fath yn debygol o feddu ar briodweddau geodechnegol gwahanol, gydag un arall yn nodi'r angen posibl i ddiwygio'r diffiniad o domen 'de minimis' ar gyfer tomenni nad ydynt yn domenni glo. Nododd ymatebydd arall fod cof torfol y diwydiant yn debygol o fod yn bwysig er mwyn sicrhau bod pob tomen yn cael ei chynnwys. Nododd un ymatebydd y gallai fod angen ailedrych ar domenni sydd eisoes wedi'u hadfer wrth i dechnegau newydd ddod i'r amlwg i ddelio â halogi.

3.21 Roedd awgrymiadau pellach eraill yn cynnwys: dylid cael nodyn atgoffa i hysbysu rhanddeiliaid allweddol pan wneir ychwanegiadau, a dylid cael mecanwaith i drydydd parti allu rhoi gwybod i'r awdurdod goruchwyllo am bresenoldeb tomen dybiedig. Roedd y sylwadau eraill yn cynnwys yr angen i asesu'r effeithiau posibl ar iechyd wrth ychwanegu tomen newydd, a sylw yn cefnogi'r cynnig y dylai'r corff newydd gael hawl gyfreithiol i fynd ar dir i wneud penderfyniad ar unrhyw domen newydd.

3.22 Roedd un ymatebydd (3%) yn anghytuno â'r dull gweithredu. Dywedodd ymatebydd arall: *“...does dim digon o wybodaeth ar hyn o bryd i gyfiawnhau ehangu cwmpas y ddeddfwriaeth arfaethedig”.*

3.23 Ni chafwyd ymateb gan chwe ymatebydd.

Cwestiwn 7

A ydych yn cytuno â sut y bwriedir mynd ati i ddiweddarau'r gofrestr asedau? Os nad ydych, manylwch ar sut, yn eich barn chi, y dylid diweddarau'r gofrestr asedau a phwy ddylai wneud hynny.

- 3.24 O'r 40 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 32 (80%) yn cytuno gyda'r dull arfaethedig ar gyfer diweddarau'r gofrestr asedau.
- 3.25 Cynigiodd nifer o'r ymatebwyr sylwadau ar bwysigrwydd peidio â thanamcangyfrif anferthedd y cynnig, a'r cymhlethdodau logistaidd sy'n rhan ohono. Nododd un ymatebydd:
- “Mae cronfeydd data tebyg gyda defnyddwyr lluosog wedi profi'n gymhleth a heriol iawn i'w rheoli a'u cyrchu gan rai sefydliadau oherwydd cyfyngiadau TG”.*
- 3.26 Nododd ymatebydd arall yr angen i sicrhau bod adnoddau a sgiliau priodol ar gyfer y cynigion.
- 3.27 Yn ogystal, nododd nifer o'r ymatebwyr fod systemau eisoes yn bodoli sy'n cael eu defnyddio'n helaeth gan awdurdodau lleol ar gyfer gwaith archwilio a chynnal a chadw. Dylai'r pob parti gytuno ar y meysydd cofnodi a fformat y gronfa ddata o'r cychwyn cyntaf. Dywedodd un ymatebydd:
- “Rydyn ni'n argymhell edrych ar hyn i'w integreiddio i'r system newydd arfaethedig. Mae'n rhaid i'r system newydd ddarparu manteision sylweddol i'r rhaglen archwilio a chynnal a chadw ar gyfer y tomenni er mwyn cyfiawnhau symud o system bresennol”.*
- 3.28 Nododd ymatebydd arall:
- “Byddem yn annog LIC i astudio'r platfform a'r gronfa ddata bosib a chysylltu ag awdurdodau lleol i sicrhau cydnawsedd TG. Mae llawer o awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio system AMX [ar gyfer] archwiliadau a chynnal a chadw”.*
- 3.29 Mynegodd un ymatebydd ei bod yn bwysig i'r gwasanaethau brys allu cyrchu'r gofrestr, gan nodi:
- “Mae Map Data Cymru eisoes yn gwasanaethu fel ffynhonnell dda ar gyfer rhannu data, er enghraifft: cynlluniau mynediad a rheoli gwasanaethau tân ac achub.”*
- 3.30 Nododd rhai ymatebwyr y gallai'r amserlenni adrodd arfaethedig fod yn rhy dynn – er enghraifft, mae'n bosibl y bydd oedi os oes problem gyda pherchnogaeth tir yn dod i'r amlwg. Nododd un ymatebydd:
- “Yn bwysicach, fodd bynnag, yw'r amser sy'n cael ei gymryd i ymgymryd â'r gwahanol weithgareddau. Does dim llawer o werth i sicrhau bod adroddiad neu newid yn cael ei lanlwytho o fewn 'x' diwrnod os yw'r gwaith wedi cael ei ymestyn dros gyfnod hir yn ddiangen”.*

3.31 Roedd dau ymatebydd (3%) yn anghytuno â'r cynnig, gan ddweud bod y dull arfaethedig o ddiweddarar'r gofrestr asedau yn rhoi'r argraff o ddiffyg rheolaeth o gofnodion a'u hansawdd. Dywedodd yr ymatebydd:

“Rydyn ni o'r farn mai'r peth gorau fyddai cyflwyno adroddiadau (yn unol â'r amserlenni a nodwyd) gyda thystysgrif i nifer cyfyngedig o bobl ddynodedig i'w hadolygu a'u derbyn yn ffurfiol cyn mynd ar y Gofrestr. Byddai angen i'r personau dynodedig [fod] yn meddu ar y cymwysterau a'r profiad addas...”

3.32 Nododd saith ymatebydd (17%) eu bod yn ansicr ynglŷn â'r cynnig.

3.33 Ni chafwyd ymateb gan bum ymatebydd.

Cwestiwn 8

A ydych yn cytuno â'r cynnig o ran y math o wybodaeth a fydd ar gael i'r cyhoedd a'r math o wybodaeth a fydd yn cael ei heithrio?

3.34 O'r 39 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 29 (74%) yn cytuno gyda'r cynnig o ran y math o wybodaeth a fydd ar gael i'r cyhoedd a'r math o wybodaeth a fydd yn cael ei heithrio.

3.35 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cyfyngu mynediad i'r gofrestr ar wahanol lefelau o fewnbwn. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylid eithrio adroddiadau technegol a chynlluniau cynnal a chadw, oherwydd eu bod nhw'n hawdd i'r cyhoedd eu camddehongli. Nododd eraill fod angen i beth gwybodaeth barhau'n gyfrinachol i berchnogion neu fusnesau (gan gynnwys unrhyw wybodaeth fasnachol neu gostau). Nododd un ymatebydd:

“...bydd angen i'r Awdurdod Goruchwylio reoli rhyddhau gwybodaeth sensitif a thechnegol yn unol â chanllawiau i'w datblygu a'u dosbarthu gan Lywodraeth Cymru”.

3.36 Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch sut y mae cyhoeddi data neu wybodaeth dechnegol yn gallu effeithio ar yswiriant cartref neu fusnes a gwerth eiddo. Dywedodd un ymatebydd:

“Mae'n bosib y bydd angen trafodaethau pellach ynghylch cyhoeddi gwybodaeth dechnegol, gan fod modd iddi gael ei chamddehongli'n hawdd neu ei defnyddio gan y diwydiant yswiriant i gyfiawnhau cynnydd mewn premiymau heb ddealltwriaeth lawn. Fel gyda mapiau risg eraill sydd ar gael i'r cyhoedd (er enghraifft, Asesiad Risg Llifogydd Cymru), mae'r gofrestr hon yn debygol o greu cynnydd ym mhryder y cyhoedd.... Dylid datblygu strategaeth gyfathrebu ac asesiad effaith ar y cyd....”

3.37 Dro ar ôl tro, tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffordd y mae'r wybodaeth hon, ac unrhyw risg tybiedig, yn cael ei chyfleu yn hollbwysig. Dywedodd un ymatebydd:

“Unwaith mae'r wybodaeth yn cael ei chyhoeddi, bydd pwysau cyhoeddus lleol, a phwysau gwleidyddol yn sgil hynny, i adfer safleoedd ger cartrefi a busnesau waeth beth fo'r risg ynghlwm wrthyn nhw”.

- 3.38 Nododd un ymatebydd (3%) y dylai'r holl wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys, er enghraifft, plant a phobl ifanc, pobl ag anableddau, gydag ystyriaeth i anghenion iaith y boblogaeth leol. Nododd ymatebydd arall y dylai argaeledd gwybodaeth hygyrch i'r cyhoedd gael ei hyrwyddo'n weithredol.
- 3.39 Roedd sylwadau eraill yn cynnwys yr angen i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cael gafael ar wybodaeth am awdurdodau cyfagos yn ôl yr angen os yw tomenni yn agos, neu'n croesi, ffiniau. Er mwyn tryloywder, noddodd un ymatebydd y dylid ystyried cyhoeddi camau gorfodi byw ar y gofrestr gyhoeddus.
- 3.40 Roedd dau ymatebydd (5%) yn anghytuno â'r cynigion. Roedd un ymatebydd o'r farn na ddylid dal unrhyw wybodaeth yn ôl, ac roedd un arall o'r farn y dylid cynnwys manylion y perchennog penodol. Nododd un ymatebydd arall:
- “Does dim ffordd y mae'r risgiau sy'n gysylltiedig yn cael eu prisio i mewn. Prin fod neb yn gwybod ble mae'r tomenni heddiw, gan fod yr wybodaeth hon yn cael ei dal yn ôl o'r parh cyhoeddus ar hyn o bryd”.*
- 3.41 Nododd saith ymatebydd (19%) eu bod yn ansicr ynglŷn â'r cynnig.
- 3.42 Ni chafwyd ymateb gan bum ymatebydd.

4. Aseu'r Peryglon

Cwestiwn 9

A ydych yn cytuno â sut y bwriedir mynd ati i fesur lefel peryglon? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

- 4.1 O'r 37 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 33 (89%) yn cytuno gyda'r dull arfaethedig o fesur lefel perygl.
- 4.2 Nododd nifer o'r ymatebwyr fod y dull gweithredu yn glir ac yn gyson, gydag un ymatebydd yn dweud: *“Rydyn ni o'r farn fod yr argymhellion yn glir ac yn hawdd eu deall gan y cymunedau sydd â thomenni ar garreg eu drws”.*
- 4.3 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn nodi'r angen am hyfforddiant, arweiniad a gwirio lefel perygl ar lefel broffesiynol, gyda dau ymatebydd hefyd yn nodi y bydd yr asesiad cychwynnol yn seiliedig ar farn oddrychol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at heriau recriwtio, gan dynnu sylw at brinder gweithwyr proffesiynol yn y maes yn benodol. Nododd un ymatebydd: *“...mae'n bosib mai'r Awdurdod Goruchwylio sydd yn y sefyllfa orau i ragnodi isafswm lefelau cymhwysedd proffesiynol ar gyfer arfarnwyr ac arbenigwyr”.*
- 4.4 Nododd un ymatebydd fod y term 'perygl' yn gofyn am ddiffiniad cliriach, ac un arall bod angen rhannu'r categorïau ymhellach. Nododd un ymatebydd:
- “Efallai y bydd angen eglurhad ar derminoleg yng nghyd-destun perygl, effaith a derbynle”.*

- 4.5 Nododd un ymatebydd nad yw'r dull gweithredu yn ymdrin yn benodol â pherygl ariannol, gydag ymatebydd arall yn holi pwy fydd yn talu am yr asesiad o beryglon (yn enwedig os nad yw tiffeddiannwr preifat yn gallu neu'n amharod i wneud hynny).
- 4.6 Roedd awgrymiadau unigol pellach i'w hystyried yn cynnwys:
- ychwanegu asesiad risg newid hinsawdd
 - ychwanegu llygredd a llifogydd fel ystyriaeth wrth benderfynu ar lefelau derbynleoedd
 - ychwanegu nodweddion mwyngloddio cysylltiedig ar y safle i'r ystyriaethau (gan gynnwys siafftau a photensial gweithfeydd bas a'u rhyngweithio gyda'r domen)
 - sicrhau asesiad digonol o effeithiau iechyd a lles posibl y tomenni (gan edrych yn eang ar effeithiau iechyd)
 - symud canolfannau hamdden o dderbynle Canolig-Isel i Ganolig-Uchel (gan fod llawer o'r safleoedd hyn wedi'u dynodi'n Ganolfannau Gorffwys mewn Argyfwng)
 - a yw cynnwys llosgi fel math o berygl yn gymesur â'r peryglon eraill sy'n cael eu rhestru.
- 4.7 Roedd pedwar ymatebydd (11%) yn anghytuno â'r cynigion. Roedd sylwadau unigol yn cynnwys:
- *"... mae mesur lefelau 'perygl' yn rhywbeth i'w bennu fel rhan o'r cylch gwaith gan gorff annibynnol ar gyfer eu gweithredoedd";*
 - *"...mae angen mwy o dryloywder ynghylch y penderfyniadau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer Tabl 2 a 3... nid yw'r ymgynghoriad yn glir ar y mater hwn";* a
 - *"....sut y bydd lefelau perygl yn cael eu rhestru lle mae mwy nag un derbynle".*
- 4.8 Ni chafwyd ymateb gan saith ymatebydd.

5. Categorioidio

Cwestiwn 10

A ydych yn cytuno â'r hyn y bwriedir ei wneud o ran datblygu categorïau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

- 5.1 O'r 36 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 33 (92%) yn cytuno gyda'r dull o ddatblygu categorïoidio.
- 5.2 Cafwyd y sylwadau canlynol gan yr ymatebwyr a oedd yn cytuno:
- *"Mae'r dull arfaethedig yn rhesymegol ac yn gyson. Mae symud i gategorioidio '1-5' yn fwy greddfoll, gydag 1 ar y brig/yr uchaf (yn hytrach na 'A i D' a oedd yn agored i gamddehongli). Mae cael dull fesul cam, sy'n caniatáu cyfnod ar gyfer cyflwyno achosion (yn hytrach nag apeliadau) ynghlŷn â chategorioidio, hefyd yn gwneud*

synnwyr. Mae'r gallu i ddiwygio categori tomen yng ngoleuni newidiadau neu weithredoedd yn amlwg yn bwysig hefyd."

- *"Er ein bod yn cytuno gyda'r categorïau'n symud o D-A i 1-5, rydyn ni'n ansicr a ddylai tîrfeddianwyr cael cyfle i newid barn ystyriol yr arbenigwyr sy'n gwneud y penderfyniad. Fodd bynnag, os oedd y penderfyniad yn wallus, yna dylai fod cyfle i ganiatáu i'r gwallau hyn gael eu hystyried."*
- *"Ydw. Mae categorïau rhifiadol gydag 1 fel yr uchaf yn ymddangos yn rhesymegol ac yn haws i'w hesbonio na'r system bresennol. Mae dull fesul cam hefyd yn ymddangos yn bragmataidd, yn seiliedig ar yr wybodaeth gychwynnol sy'n bosib ei hadolygu wrth i wybodaeth bellach gael ei chasglu. Fodd bynnag, gallai beri dryswch os yw'r categoreiddio dros dro hwn yn cael ei ryddhau i'r cyhoedd..."*
- *"...cefnogi'r symudiad i gategoreiddio yn ôl rhifau nid llythrennau er mwyn cydymffurfio â gofynion yr iaith Gymraeg"*.

5.3 Nododd un ymatebydd hefyd:

"Dylai fod gofyniad i nodi'n glir y cysylltiad rhwng lefel perygl a lefel categoreiddio, gan gynnwys unrhyw ffactorau safle-benodol fel bod y broses yn dryloyw a bod tîrfeddiannwr etc yn gallu apelio yn erbyn y dosbarthiad".

5.4 Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at botensial perchennog i gael hawl i apelio. Roedd sawl ymateb hefyd yn cydnabod cymeradwyo dull gweithredu fesul cam.

5.5 Roedd tri ymatebydd (8%) yn anghytuno â'r cynigion. Cafwyd y sylwadau canlynol gan yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion:

- *"Na – eto mae hyn yn rhywbeth i sicrhau dilysrwydd ac annibyniaeth y corff."*
- *"Mae eu seilio ar lefel y difrod maen nhw'n gallu'i wneud, yn hytrach na'r gwir risg o lithro, yn gamarweiniol"*
- *"Mae bocs 1 C a D yn ddryslyd. Beth yw'r diffiniad o botensial i achosi risg i fywyd neu eiddo? Byddai un categori yn ymddangos yn fwy priodol. Yn yr un modd, mae B A ac R yn risg isel yn y bôn, felly mae'n ymddangos bod gan y blwch yn cynnwys dau gategori, risg neu dim risg/risg isel"*.

5.6 Ni chafwyd ymateb gan wyth ymatebydd.

6. Clystyrau o Domenni a Chynlluniau Rheoli

Cwestiwn 11

A ydych yn cytuno â'r hyn y bwriedir ei wneud o ran clystyrau o domenni rhyngddibynnol a chyfagos?

6.1 O'r 38 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 37 (97%) yn cytuno gyda'r dull gweithredu ar gyfer clystyrau o domenni rhyngddibynnol a chyfagos.

- 6.2 Cafwyd y sylwadau unigol canlynol gan yr ymatebwyr a oedd yn cytuno gyda'r dull gweithredu:
- *"...bydd y cynnig yn darparu dull clir o reoli'r clystyrau hyn a bydd yn ystyried yr effeithiau ehangach posib ar domenni cyfagos";*
 - *"Mae'r dull arfaethedig yn ymddangos yn rhesymegol";*
 - *"Mae hyn yn ymddangos yn synhwyrol ac yn gyson ag egwyddorion rheoli integredig";*
- 6.3 Nododd un ymatebydd:
- "Gall ymchwiliadau i domenni ddatgelu cyd-ddibyniaeth rhwng yr hyn a nodwyd fel clwstwr cyfagos o domenni i ddechrau. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai angen i'r Awdurdod Goruchwyllo ail-ddynodi'r clwstwr".*
- 6.4 Nododd nifer o'r ymatebwyr bod angen rhoi ystyriaeth bellach i glystyrau o domenni a allai rychwantu gwahanol berchnogion neu ffiniau. Roedd y sylwadau'n cynnwys:
- *"Bydd angen ystyried y posibilrwydd o glystyrau sy'n rychwantu ffiniau Cyngorau, perchnogion gwahanol a dosbarthiadau gwahanol. Mae potensial i drosglwyddo mwy o gyfrifoldeb i awdurdodau lleol am glystyrau cyfagos";*
 - *"Dylid ystyried perchnogaeth wrth gytuno ar glystyrau";* ac
 - *"Ystyried cynnwys y potensial i berchennog wneud cais am reolaeth o fewn clwstwr".*
- 6.5 Roedd un ymatebydd (3%) yn anghytuno â'r cynnig.
- 6.6 Ni chafwyd ymateb gan chwe ymatebydd.

Cwestiwn 12

A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer datblygu cynlluniau rheoli? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.

- 6.7 O'r 40 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 37 (92%) yn cytuno gyda'r cynigion ar gyfer datblygu cynlluniau rheoli.
- 6.8 O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno, holodd sawl ymatebydd a fydd cyllid grant ar gael, gydag un ymatebydd yn nodi: *"...sut a lle bydd hyn yn cael ei ariannu'n ymarferol?"*
- 6.9 Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r holl gynlluniau rheoli gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod goruchwyllo. Holodd un ymatebydd pwy sy'n penderfynu a yw parti'n meddu ar lefel briodol o arbenigedd i ddatblygu cynllun rheoli, gydag un arall yn nodi'r angen i sicrhau dull cyson o ddatblygu cynlluniau rheoli.
- 6.10 Cwestiynodd nifer o'r ymatebwyr hyd yr amserlenni ar gyfer datblygu cynlluniau rheoli, gydag un yn nodi:

“...Mae 18 mis yn ymddangos yn amser hir i gynhyrchu cynllun rheoli ar gyfer tomen statws uwch. Unwaith y bydd system wedi’i datblygu, dylai fod yn ddigon rhyngweithiol i gynhyrchu a diwygio cynllun rheoli yn hynod o gyflym”.

6.11 O ystyried yr amserlenni cyn i’r Awdurdod Goruchwylio ddechrau ar ei ddyletswyddau, nododd un ymatebydd y dylid rhoi dull dros dro ar waith. Nododd ymatebydd arall:

“Amserlenni beichus o ystyried yr adnoddau presennol ar gyfer paratoi oddeutu 90 cynllun rheoli mewn 36 mis. Efallai ei bod yn werth cael dull fesul cam, gyda thomenni categori 4/5 i gael mwy na 36 mis i ddechrau”.

6.12 Holodd dau ymatebydd a ddylai tomenni risg isel, tomenni heb unrhyw risg neu domenni wedi’u hadfer fod angen cynllun rheoli, neu archwiliadau dilynol (ac os nad oedd angen hynny, byddai hyn yn lleihau gofynion adnoddau yn sylweddol).

6.13 Nododd un ymatebydd: *“Bydd cynnwys unrhyw ddata hanesyddol yn chwarae rhan fawr mewn unrhyw gynllun rheoli, a dylai’r data yma gael ei ymgorffori cyn gynted â phosib”.* Dywedodd ymatebydd arall:

“... dylid ychwanegu archwiliadau archaeolegol/treftadaeth at y rhestr o fathau ychwanegol o archwilio arbenigol. Bydd hyn yn galluogi pennu gwerth archaeolegol/treftadaeth ac arwyddocâd tomen lo ac yn helpu i lywio ymatebion rheoli”.

6.14 Cynigiodd dau ymatebydd sylwadau ar yr angen am gysylltiad clir rhwng datblygu cynllun rheoli a’r angen i ddatblygu cynlluniau argyfwng. Nododd un ymatebydd fod yn rhaid i gynlluniau rheoli: *“...eglwro a chydabod risgiau posib y domen, yn feddyliol a chorfforol, a’i phresenoldeb, i iechyd y boblogaeth leol”.*

6.15 Roedd tri ymatebydd (8%) yn anghytuno â’r cynigion. Darparwyd y sylwadau canlynol:

- *“Y broblem gyda’r dull sy’n cael ei awgrymu yw y bydd disgwyl gweithredu a lleihau perygl unwaith y bydd tomen yn cael ei phennu’n categori 1 neu 2. Fodd bynnag, nid yw’n glir sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni mewn gwirionedd”;* a
- *“... dylai’r cynlluniau rheoli gael eu cynhyrchu gan yr Awdurdod Goruchwylio. Mae nifer o’r tomenni yn domenni gwaddol, a’r glo yn eiddo i’r wladwriaeth. Dylai’r wladwriaeth felly ysgwyddo’r cyfrifoldeb o ran rheoli ac adfer tomenni gwaddol.”*

6.16 Ni chafwyd ymateb gan bedwar ymatebydd.

7. Archwiliadau/Arfarniadau, Cynnal a Chadw a Chytundebau Cynnal a Chadw

Cwestiwn 13

A ydych yn cytuno â'r dull tair haen a pha mor aml y bwriedir cynnal gwiriadau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

- 7.1 O'r 40 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 27 (68%) yn gytûn â'r dull haenog ac amllder arfaethedig y gwiriadau.
- 7.2 Ar y cyfan, er bod y mwyafrif yn cytuno â'r cwestiwn hwn, roedd llawer o'r ymatebwyr eisiau sicrhau bod gwiriadau amlach ar domenni categori uwch, yn ystod misoedd y gaeaf, yn dilyn glaw trwm neu stormydd, ac unrhyw sefyllfa arall sy'n benodol i'r domen honno, yn dal i allu digwydd.
- 7.3 Holodd rhai ymatebwyr a oedd trefn y dull haenog yn gywir, gan ofyn a ddylid cynnal yr arfarniad ar ddechrau'r drefn a'i ddilyn gan archwiliad. Holodd ymatebydd arall a oedd modd cyfuno'r archwiliad a'r arfarniad mewn un archwiliad unigol a fyddai'n llywio gwaith cynnal a chadw ac yn cynnwys offeryniaeth pan fo hynny'n berthnasol.
- 7.4 Roedd pedwar ymatebydd (10%) yn anghytuno â'r dull hwn a naw ymatebydd (22%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno'n benodol â'r cynnig.
- 7.5 Roedd un maes pryder yn ymwneud ag adnoddau ac roedd hyn yn cynnwys cost y drefn i sefydliadau a thirfeddianwyr, argaeledd unigolion proffesiynol a chymwys i gynnal y gwiriadau a gallu cyrff cyhoeddus i wneud y gwaith. Yn ogystal, roedd sawl ymatebydd yn teimlo y gallai'r drefn fod yn rhy feichus ar gyfer y tomenni categori is, yn enwedig rhai categori 4, gan holi a oedd modd eu rhyddhau o'r drefn.
- 7.6 Roedd rhai pryderon hefyd am y gallu i gynnal archwiliad ar dir gyda llystyfiant trwm, lle mae cynnal archwiliad gweledol o'r domen bron yn amhosibl.
- 7.7 Ni chafwyd ateb i'r cwestiwn gan bedwar ymatebydd.

Cwestiwn 14

A ydych yn cytuno â rhannu cyfrifoldebau ar gyfer archwiliadau ac arfarniadau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

- 7.8 O'r 37 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 21 (56%) o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn cytuno â'r rhaniad cyfrifoldebau ar gyfer archwiliadau ac arfarniadau.
- 7.9 Tra'n cytuno gyda'r cynnig, cafwyd rhai awgrymiadau ar sut i hollti'r cyfrifoldebau mewn ffordd well. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r holl domenni statws uwch (categoriâu

1 a 2) fod yn gyfrifoldeb i'r Awdurdod Goruchwylio er mwyn sicrhau cysondeb. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai gan yr Awdurdod Goruchwylio awdurdod uwch o ran mynediad i domenni preifat.

- 7.10 Roedd ymatebwyr eraill a oedd yn cytuno gyda'r cynigion yn gwneud hynny ar yr amod bod angen trafodaethau pellach ynglŷn ag adnoddau. Cafodd lefel yr arian a oedd ar gael ei gwestiynu, ar gyfer tiffeddianwyr preifat a'r awdurdod lleol. Mae hefyd angen llinell glir o gyfrifoldeb ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol yn y pen draw os yw tomen yn methu.
- 7.11 Cwestiynodd awdurdod lleol a ymatebodd os oedd modd i awdurdodau lleol weithio yn rhanbarthol i rannu eu hadnoddau. Roeddent yn teimlo y byddai problem capasiti i rai awdurdodau; nad yw'r sgiliau angenrheidiol ar gael yn fewnol ac mae anhawster o ran recriwtio'r rhai sydd eisoes yn meddu ar y sgiliau.
- 7.12 Roedd un ymatebydd yn teimlo bod yr hollt rhwng cyfrifoldebau yn ymddangos yn synhwyrol, cyn belled nad yw awdurdodau lleol na CNC yn archwilio eu tomenni eu hunain. Dywedodd yr ymatebydd bod angen monitro annibynnol wrth gwblhau archwiliad.
- 7.13 Roedd wyth ymatebydd (21%) yn anghytuno â'r cynnig ac wyth ymatebydd arall (21%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno'n benodol â'r cynnig.
- 7.14 Roedd mwyafrif yr ymatebion negyddol yn canolbwyntio ar ddefnyddio tiffeddianwyr ar gyfer archwiliadau tomenni categori 3 a 4. Roedd pryderon nad yw perchnogion o reidrwydd yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i adnabod arwyddion o berygl posibl. Nododd un ymatebydd:
- “...ni ellir cynnal y safon ar gyfer archwiliadau gydag aelodau o'r cyhoedd yn llunio barn o natur broffesiynol”.*
- 7.15 Awgrymodd un ymatebydd y gallai'r awdurdod goruchwylio neu'r awdurdod lleol drefnu i fynd gyda thiffeddianwyr ar yr archwiliad cyntaf i gynghori ynghylch y gofynion a sicrhau eu bod yn arolygu'n gywir. Os yw adnoddau'n cael eu hystyried yn brin, nododd ymatebydd arall bod angen rhaglen â ffocws ar y cyd â sefydliadau academiaidd a phroffesiynol i hyfforddi personél.
- 7.16 Nododd un ymatebydd (2%) a oedd yn anghytuno â'r dull gweithredu fod angen i Lywodraeth Cymru ofalu nad yw anghydraddoldebau'n cael eu creu lle mae tomen dan reolaeth perchennog preifat o'i gymharu â thomen yn y sector cyhoeddus.
- 7.17 Ni chafwyd ymateb gan wyth ymatebydd.

Cwestiwn 15

A ydych yn cytuno â'r cynnig ar gyfer y gofynion sylfaenol o ran cynnwys adroddiadau ac, os felly, beth ydych chi'n ystyried sy'n wybodaeth hanfodol?

- 7.18 O'r 36 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 23 (64%) yn cytuno gyda gofynion sylfaenol arfaethedig adroddiadau. Roedd rhai o'r ymatebion yn nodi y bydd proses safonol yn werthfawr er mwyn sicrhau cysondeb. Awgrymodd ymatebwyr y bydd angen

cyfeirio at archwiliadau cychwynnol mewn adroddiadau dilynol a'u defnyddio i ddarparu llinell sylfaen ar gyfer unrhyw waith pellach.

7.19 Roedd un ymatebydd yn cytuno gyda'r dull a awgrymwyd i ragnodi'r gofynion sylfaenol mewn is-ddeddfwriaeth oherwydd:

“Drwy ragnodi'r gofynion sylfaenol mewn is-ddeddfwriaeth, fel y cynigiwyd, mae lle i ddiwygio cyd-destun y gofynion sylfaenol yng ngoleuni profiad.

7.20 Nododd un ymatebydd y dylid ystyried defnyddio datrysiadau digidol i gasglu data mewn amser real o ffonau clyfar a thabledi. Byddai hyn yn ffordd effeithlon o gasglu gwybodaeth, yn enwedig mewn argyfwng.

7.21 Roedd y cwestiwn hefyd yn holi i ymatebwyr awgrymu beth fyddai'n wybodaeth hanfodol i'w chynnwys mewn adroddiad. Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- Newidiadau mewn llystyfiant – gallai presenoldeb brwyn ddangos lefel dŵr daear uwch, neu gallai gwahaniaethau o ran iechyd a bywiogrwydd fod yn arwydd o newidiadau i'r ddaear;
- Gwybodaeth am ddraenio ar yr wyneb o dir uwch, megis ar ochr bryn;
- Defnydd tir gan gymunedau lleol, yn enwedig os oes hanes o danau;
- Bydd angen i waith geodechnegol gynnwys gwaith daearegol a dŵr daear, felly efallai bod 'peirianeg daear' yn derm gwell;
- Arolwg drôn neu luniau arferol i brofi bod amodau arwyneb yn gwaethygu;
- Data ecolegol;
- Agosrwydd derbynleoedd;
- Llwybrau mynediad, llwybrau archwilio a lleoliad asedau;
- Hanes mwyngloddio gan gynnwys datblygiad a chau'r domen, dull tipio a lleoliad capiau siafft;
- Lle i nodi unrhyw sylwadau yn dilyn yr adolygiad o adroddiadau hanesyddol neu arsylwadau eraill neu adborth;
- Enw'r unigolyn a'r sefydliad sy'n cynnal yr archwiliad/arfarniad; a
- Gorfodaeth i gwblhau pob adran, hyd yn oed os nad oes newid a'r ymateb yw 'amherthnasol' fel nad yw'r adroddiad yn edrych yn anghyflawn.

7.22 Roedd pum ymatebydd (14%) a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn anghytuno â'r gofynion sylfaenol arfaethedig ac wyth ymatebydd arall (22%) nad oeddent yn cytuno nac anghytuno'n benodol â'r cynnig.

7.23 Awgrymodd dau ymatebydd fod system sgorio yn cael ei defnyddio yn lle hynny, er mwyn asesu cyflwr y domen yn fanylach ac amlygu dirywiad cynyddol yn gynnar. Gellid defnyddio hyn hefyd i sgorio lefel y risg o fethiant llethr. Roedd ymatebydd arall o'r farn bod mapio geomorffolegol peirianyddol yn hanfodol wrth asesu ansefydlogrwydd, ac y dylid ei ddefnyddio.

7.24 Ni chafwyd ymateb gan wyth ymatebydd.

8. Goruchwylio, Gorfodi, Codi Tâl ac Apeliadau

Cwestiwn 16

A ydych yn cytuno y dylai'r Awdurdod Goruchwylio ddefnyddio sancsiynau sifil i sicrhau cydymffurfiaeth? Os nad ydych, nodwch eich rheswm.

- 8.1 O'r 33 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 30 (91%) a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno'n uniongyrchol gyda'r cynnig i ganiatáu i'r awdurdod goruchwylio ddefnyddio sancsiynau sifil i sicrhau cydymffurfiaeth.
- 8.2 Roedd llawer o'r ymatebion o'r farn bod sancsiynau'n hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac na fyddai'r drefn yn gweithio heb fesurau priodol i sicrhau bod perchnogion yn cydymffurfio. Croesawyd sancsiynau gan un ymatebydd, gan nad oedd gofynion mynediad wedi'u cynnwys yn Neddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 ac roedd o'r farn bod hyn wedi llesteirio llwyddiant y Ddeddf.
- 8.3 Roedd ymatebydd arall yn cytuno gyda'r defnydd o sancsiynau sifil, gyda throedd ar gael fel dewis olaf i droseddwr cyson neu ddiffyg cydymffurfio bwriadol. Fodd bynnag, roedd o'r farn bod angen rhoi pwerau priodol i awdurdodau lleol hefyd os ydynt i fod yn gyfrifol am oruchwylio tomenni Categori 2 sydd mewn dwylo preifat neu os yw gwaith wedi cael ei ddirprwyo iddynt gan yr awdurdod goruchwylio. Awgrymodd hefyd:
- “Mae'n rhaid rhoi pwerau penodol i'r awdurdodau lleol i sicrhau y bydd perchennog tomen yn ymgymryd â gwaith adfer os oes unrhyw waith wedi digwydd heb gydsyniad, neu os yw'n debygol o effeithio ar uniondeb a sefydlogrwydd tomen. Mae Atodlen 1 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn enghraifft o sut y gall diffyg pwerau a bylchau mewn deddfwriaeth fod yn niweidiol o ran cyflawni swyddogaeth a sicrhau uniondeb peiranyddol asedau allweddol”.*
- 8.4 Un thema gyffredin yn yr ymatebion oedd y dylai'r sancsiynau fod yn briodol, yn deg ac yn ddarostyngedig i linell amser dynn.
- 8.5 O'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, roedd un ymatebydd (3%) yn anghytuno â'r cynnig sancsiynau sifil, gan nodi y dylai awdurdodau lleol hefyd gael yr un pwerau â'r Awdurdod Goruchwylio. Nododd dau ymatebydd (6%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno'n benodol â'r cynnig.
- 8.6 Er nad oedd yn ymateb negyddol i'r cynnig, roedd rhai pryderon am fforddiadwyedd y mesurau. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn tybio beth fyddai'n digwydd pe na bai'r tîrfeidiannwr yn gallu fforddio'r archwiliad na'r gwaith angenrheidiol. Cwestiynodd un ymatebydd allu pob parti cyfrifol i gydymffurfio'n ariannol ag unrhyw ofynion.
- 8.7 Ni chafwyd ateb i'r cwestiwn gan 11 ymatebydd.

Cwestiwn 17

A ddylai'r Awdurdod Goruchwylio gael disgrisiwn ynghylch pa sancsiynau i'w defnyddio neu a ddylid pennu'r sancsiwn yn y ddeddfwriaeth ar gyfer pob toriad?

- 8.8 O'r 31 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 7 (23%) o'r farn y dylai'r awdurdod goruchwylio gael disgrisiwn dros ba gosb i'w defnyddio. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys cynnig disgrisiwn i'r awdurdod goruchwylio er mwyn caniatáu dull cymesur o gymhwyso sancsiynau i domenni statws uwch a statws is.
- 8.9 Roedd yn well gan ddeg ymatebydd (32%) fod y gosb yn cael ei nodi yn y ddeddfwriaeth. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai hyn yn sicrhau nad oedd unrhyw gam-drafod, camddechongli neu amwysedd ac y byddai pob achos yn cael ei drin yn deg.
- 8.10 Roedd un ymatebydd (3%) yn teimlo bod angen cyfleu'r sancsiynau mewn ffordd glir fel bod y troseddwr yn deall y cyhuddiad yn ei erbyn yn iawn. Roedd hefyd o'r farn y dylid newid y sancsiynau yn unol â chyfradd chwyddiant. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch priodoldeb defnyddio hysbysiad cydymffurfio pan nad oedd gwaith adferol wedi'i wneud.
- 8.11 Nid oedd 13 o ymatebwyr (42%) yn ffafrio unrhyw ddull penodol, ond cafwyd sylwadau ganddynt ynghylch lefel y sancsiynau sifil. Awgrymwyd y dylai unrhyw ddirwy fod yn gymesur â maint neu incwm y sefydliad, yn yr un modd a'r dull o gyfrifo dirwyon goryrru ar hyn o bryd. Awgrymodd un arall y dylid cael graddfa symudol o gosbau am fethiant cyson i gydymffurfio.
- 8.12 Ni chafwyd ymateb gan 13 ymatebydd.

9 Gweithgareddau ar Domenni Glo nas Defnyddir

Cwestiwn 18

A ydych yn cytuno â'r rhestr o weithgareddau? Os nad ydych, pa weithgareddau, yn eich barn chi, y mae angen eu rheoli ar domenni glo nas defnyddir?

- 9.1 O'r 40 a atebodd y cwestiwn, roedd 31 (77%) yn cytuno gyda'r rhestr o fathau o weithgareddau a allai fod angen eu gwahardd neu angen caniatâd.
- 9.2 Cynigiodd yr ymatebwyr nifer o sylwadau, gan gynnwys yr angen i ganolbwyntio ar y gweithgareddau hynny sydd â'r potensial i gynyddu'r risg i ddiogelwch tomenni yn sylweddol. Derbyniwyd cais hefyd am eglurder o ran sut y bydd unrhyw reolaethau arfaethedig yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys y dull gweithredu ar domenni wedi'u graddio'n is neu domenni 'de minimis'. Awgrymwyd y bydd angen ystyried yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw unrhyw gyfyngiadau arfaethedig yn achosi problemau ar gyfer unrhyw waith adfer yn y dyfodol. Awgrymwyd hefyd nad yw unrhyw gyfyngiadau arfaethedig yn rhwystro gwaith brys a allai fod yn ofynnol ar safle, ac eglurder, lle bydd cyfundrefnau deddfwriaethol o bosibl yn cystadlu, ynghylch pa un sydd drechaf.

- 9.3 Cyfeiriodd ymatebwyr (18%) at nifer o weithgareddau eraill a allai fod angen eu rheoli ar domenni glo nas defnyddir. Roedd y rhain yn cynnwys beicio modur a defnyddio cerbydau 4x4 ar gyfer hamdden, yn ogystal â digwyddiadau wedi'u trefnu neu ddigwyddiadau digymell sy'n cael eu cynnal ar domen, neu'n agos ati. Awgrymwyd rheoli da byw, oherwydd y gallai symud da byw darfu ar ddeunydd sy'n llygru, neu beri iddo weithio'n rhydd. Yn ogystal, awgrymwyd dymchwel adeiladau neu strwythurau ar dir nad oeddent yn destun craffu cynllunio. Soniodd un ymatebydd am effaith bosibl datblygiadau cyfagos ac isadeiledd cyfleustodau, yn newydd ac yn bodoli eisoes, sy'n mynd heibio, dros neu o dan domen. Yn olaf, yng nghyd-destun ehangu'r drefn i gwmpasu tomenni nad ydynt yn domenni glo, awgrymwyd y dylid ystyried symud sborion yn anghyfreithlon.
- 9.4 Roedd dau ymatebydd (5%) yn anghytuno â'r cynnig, ac un ymatebydd (3%) heb fynegi dewis. Roedd un ymatebydd o'r farn na ddylid cynnwys echdynnu mwynau fel enghraifft ddiodyn o dan gloddio/newid proffiliau tomenni, oherwydd bod y gweithgareddau hyn yn cael eu rheoli fel mater o drefn a bod modd ystyried eu bod yn cywiro problemau sy'n gysylltiedig â symud deunydd wedi'i roi ar domen.
- 9.5 Ni chafwyd ymateb gan ddeg ymatebydd.

Cwestiwn 19

Pa ddulliau rheoli sydd angen eu cyflwyno, yn eich barn chi, i reoli gweithgareddau penodol ar domenni?

- 9.6 Cynigiodd ymatebwyr sawl awgrym ar gyfer mecanweithiau posibl i reoli rhai gweithgareddau ar domenni. Roedd safbwyntiau'n amrywio o waharddiad llwyr ar bob gweithgaredd i fabwysiadu dull mwy cymesur seiliedig ar risg, gan gynnwys defnyddio'r ddeddfwriaeth orfodi bresennol. Soniwyd hefyd am adfer ac adferiad er mwyn cael gwared ar risgiau posibl. Mae crynodeb o'r themâu allweddol a fynegwyd i'w weld isod.

Defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol

- 9.7 Roedd nifer o ymatebwyr yn cynnig defnyddio'r ddeddfwriaeth gynllunio bresennol fel mecanwaith i reoli rhai gweithgareddau ar domenni. Awgrymodd nifer y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn ymgynghorydd statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio ar domen neu yng nghyffiniau tomen. Yn ogystal, tynnodd yr ymatebwyr sylw at fesurau gorfodi presennol ar gyfer rhai gweithgareddau a rôl yr heddlu. Awgrymwyd mai un dull mwy priodol fyddai cynnwys rheoli gweithgareddau ym mhwerau ehangach awdurdodau lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai modd wedyn i ddarparu canllawiau i'r cyrff hyn ystyried diogelwch ar safleoedd tomenni sborion, gyda'r awdurdod goruchwyllo yn ymgynghorydd a nodwyd yn hytrach nag yn ymgynghorydd statudol.
- 9.8 Awgrymwyd hefyd fod angen eglurder lle mae'r cyfundrefnau deddfwriaethol presennol yn gwrthdaro â'r drefn diogelu tomenni glo, er mwyn penderfynu beth fyddai'n cael blaenoriaeth mewn sefyllfaoedd penodol.

Mynediad

- 9.9 Roedd rhai ymatebwyr yn cynnig cyfyngu ar fynediad i ardaloedd sy'n cynnwys tomenni. Dylid gosod hysbysiadau ar lwybrau mynediad i ardaloedd, sy'n nodi'r camau gorfodi posibl a'r camau troseddol a all tramgwyddwyr eu hwynebu. Soniwyd hefyd am 'dirgloi'⁵ er mwyn atal mynediad i'r cyhoedd.

Rôl yr Awdurdod Goruchwyllo

- 9.10 Gwnaed sawl awgrym ynglŷn â rôl yr awdurdod goruchwyllo. Roedd y rhain yn cynnwys bod yr awdurdod goruchwyllo yn gallu cymeradwyo unrhyw waith adeiladu neu ddatblygu arfaethedig ar domen lo neu'n agos i domen lo. Cynigiwyd yr angen am archwiliadau rheolaidd gan beiriannydd profiadol addas wedi'i gyflogi gan yr awdurdod goruchwyllo. O ran tomenni wedi'u graddio'n is, awgrymwyd y dylai fod yn ofynnol i gael cydsyniad yr Awdurdod Goruchwyllo neu awdurdodau lleol i ymgymryd â gwaith rhagnodedig penodol (y tu allan i gytundebau cynnal a chadw) ar domen nas defnyddir.
- 9.11 Cynigiwyd bod yr awdurdod goruchwyllo yn gweithio'n agos gyda phartneriaid eraill, er enghraifft y Gwasanaeth Tân, a allai ystyried gweithgareddau/argymhellion ar gyfer rheoli lefel risg o dân ar domenni, gan gynnwys rheoli bylchau tân. Awgrymwyd eu bod yn dod yn ymgynghorydd statudol mewn cynlluniau rheoli sy'n gysylltiedig â rheoli tân mewn ardaloedd risg uchel.

Addysg a hybu ymwybyddiaeth

- 9.12 Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at yr angen am addysg a hybu ymwybyddiaeth yn gyffredinol, gan nodi bod sawl gweithgaredd sy'n cael eu rhestru yn y papur ymgynghori yn weithgareddau ataliol. Awgrymwyd cynnal ymgyrch gyffredinol i hybu ymwybyddiaeth er mwyn cyfleu amcanion y drefn newydd i'r cyhoedd yn ehangach, gan gynnwys effaith bosibl rhai gweithgareddau a'u canlyniadau. Awgrymwyd hefyd y dylid targedu cyfathrebu ac addysg o fewn ysgolion. Cynigiwyd bod diwygio'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gyfle i sicrhau bod ysgolion mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio yn gallu addysgu a chyfleu negeseuon allweddol ynghylch y peryglon a'r risgiau ynghlwm wrth rai o'r gweithgareddau. Yr amcan fyddai dangos i bobl ifanc sut y gallan nhw gymryd camau i leihau'r risg iddyn nhw eu hunain, i eraill a'r amgylchedd ehangach.

Anawsterau gorfodi

- 9.13 Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at yr anawsterau posibl ynghylch gorfodi'r gweithgareddau hyn. Er enghraifft, a fyddai'r gwaith o archwilio ar domenni wedi'u graddio'n uwch yn digwydd yn ddigon aml i nodi gorbori neu dynnu llystyfiant. Yn ogystal, cyfeiriwyd at yr anawsterau ynghylch gorfodi'r ddeddfwriaeth bresennol a phlisma gweithgareddau heb awdurdod. Tynnwyd sylw at y ffaith bod tomenni, yn unol â'u natur, yn aml mewn ardaloedd anghysbell sy'n anodd eu plisma, yn enwedig tomenni preifat.

⁵ Mae tirgloi, yng nghyd-destun eiddo tiriog, yn cyfeirio at ddarn o eiddo sy'n anhygyrch drwy dramwy cyhoeddus, ac eithrio trwy eiddo cyfagos.

9.14 Awgrymwyd bod angen edrych yn ofalus ar fater pwy fyddai'r awdurdod cydsynio. Gallai unrhyw gyfrifoldeb ar y cyd rhwng yr awdurdod goruchwylio ac awdurdodau lleol achosi baich adnoddau arall i awdurdodau lleol.

Cwestiwn 20

A ydych yn cytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â gweithgareddau datblygu yng nghyffiniau tomenni statws uwch?

9.15 O'r 38 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 28 (74%) yn cytuno gyda'r cynigion yn ymwneud â gweithgareddau datblygu yng nghyffiniau tomenni statws uwch.

9.16 Roedd y pryderon allweddol yn cynnwys: datblygu ffermydd gwynt, a sut y gallai'r gwaith gyfrannu at ansefydlogi'r tomenni a'r systemau rheoli draenio, yn enwedig lle byddai'r tomenni ar dir uwch. Nododd nifer o'r ymatebwyr fod angen diffinio sefyllfa frys – os nad yw'n cael ei amlinellu'n glir, bydd awdurdodau yn betrusgar i ddefnyddio'r pwerau neu ddatgan argyfwng.

9.17 Roedd tri ymatebydd (8%) yn anghytuno â'r cynigion, gydag un ymatebydd yn dweud na ddylai hyn gael ei gyfyngu i domenni statws uwch. Roedd saith ymatebydd (18%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno'n benodol â'r cynnig, ond cynigiwyd y sylwadau canlynol ganddynt:

- *“... dylai'r ffocws fod ar reoli'r tomenni, saernïo gwell draenio, dim ond pan maen nhw'n orlawn o ddŵr maen nhw'n mynd”;* ac
- *“Yn gyffredinol, byddai gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â datblygu yng nghyffiniau tomen yn gofyn am gynllunio neu gydsyniad rheoleiddio arall, felly mae'n bosib y byddai ymgorffori rheolaeth ar weithgareddau ym mhwerau ehangach awdurdodau lleol yn ddull gweithredu gwell”.*

9.18 Ni chafwyd ymateb gan chwe ymatebydd.

10 Cwestiynau ychwanegol

Cwestiwn 21

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r fframwaith rheoleiddio newydd arfaethedig ar gyfer tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut mae cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

- 10.1 O'r 20 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 12 (60%) o'r farn y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.
- 10.2 Nododd sawl ymatebydd yr angen i'r awdurdod goruchwylio gydymffurfio â'r mesurau presennol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Roedd yr ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am sefydliad cwbl ddwyieithog, ac yn arbennig gallu'r cyhoedd i ofyn am, a chael gafael ar, wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Codwyd hefyd yr angen i gynnal enwau hanesyddol neu draddodiadol Gymreig ar gyfer y tomenni. Cafwyd y sylw canlynol gan un ymatebydd:
- “Rydyn ni'n credu y dylai'r Ddeddfwriaeth, Polisiâu a Chanllawiau fod yn ddwyieithog ynghyd â'r ffurflenni a'r templedi adrodd, ond y dylid cyflwyno'r cyflwyniadau technegol yn Saesneg. Byddai'n afresymol o ddrud i awdurdod statudol a/neu dirfeddianwyr unigol gyfieithu adroddiadau. O ystyried yr amserlenni ar gyfer cwblhau dogfennau penodol ar ôl i domen gael ei chynnwys ar y gofrestr a'r garfan gyfyngedig o staff profiadol, gallai'r oedi wrth gyfieithu hefyd olygu methiant i gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth newydd”.*
- 10.3 Roedd pump o'r ymatebwyr (25%) o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg, a thri o'r ymatebwyr (15%) yn ansicr. Nid oedd unrhyw un o'r ymatebwyr yn ystyried y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.
- 10.4 Ni chafwyd ymateb gan 24 ymatebydd.

Cwestiwn 22

Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion polisi a gynigir fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 10.5 Derbyniwyd 17 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- 10.6 Nododd nifer o'r ymatebwyr fod angen sicrhau bod y Safonau Iaith newydd yn cael eu bodloni ac i'r awdurdod fod yn ddwyieithog. Nododd un ymatebydd: “Er mwyn annog peirianwyr i weithio yn yr amgylchedd hwn, ni ddylai unrhyw rwystrau iaith fod ar waith”.
- 10.7 Nododd ymatebydd arall fod angen eglurder o ran pa sefydliad (er enghraifft, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol) sy'n gyfrifol am sicrhau bod y safonau'n cael eu bodloni. Nododd un ymatebydd fod angen rhoi cyfarwyddyd clir i bob awdurdod lleol wrth sicrhau bod gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni.
- 10.8 Yn olaf, dywedodd un ymatebydd y dylai'r gofrestr asedau sydd ar gael yn gyhoeddus fod yn ddwyieithog:
- “Yn benodol, dylai fod yn syml i'r gofrestr gynnwys yr holl enwau gwahanol ar safle, drwy gynnwys maes addas yn y gronfa ddata. Bydd hyn yn*

cynorthwyo mynediad ac yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru o feithrin yr iaith, diwylliant ac enwau lleoedd Cymraeg.

10.9 Dywedodd dau ymatebydd nad oeddent yn ystyried y byddai'r cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg.

10.10 Ni chafwyd ymateb gan 27 ymatebydd.

Cwestiwn 23

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill neu wybodaeth ddefnyddiol mewn perthynas ag unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn?

10.11 Derbyniwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae crynodeb o'r themâu allweddol canlynol a godwyd isod:

- Gwerth Hanesyddol
- Amgylcheddol/Newid Hinsawdd ac Ecosystemau
- Cyfrifoldebau'r awdurdod goruchwylio newydd
- Arian a Chyllid
- Gweithdrefnau Ymateb Brys ac Iechyd y Cyhoedd
- Amrywiol

Gwerth Hanesyddol

10.12 Nododd un ymatebydd fod angen sicrhau bod gwybodaeth hanesyddol yn cael ei chipio, gan gynnwys effaith cynlluniau adfer/adferiad fel rhan o'r broses asesu arfaethedig. Awgrymodd ymatebydd arall gwerth posibl protocol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng y gofrestr newydd a chofnodion amgylcheddol hanesyddol.

Amgylcheddol/Newid Hinsawdd ac Ecosystemau

10.13 Nododd un ymatebydd fod tomenni bellach yn ecosystemau bregus sy'n cynnwys rhywogaethau gwarchoddedig ac unigryw, ac y dylai adroddiad ecolegol ragflaenu unrhyw raglen gynnal a chadw. Nododd ymatebydd arall y dylai newid hinsawdd fod yn ystyriaeth orfodol, ac y dylai'r gwaith o benderfynu ar y risg gynnwys cwblhau asesiad risg Newid Hinsawdd.

Cyfrifoldebau'r Awdurdod Goruchwylio newydd

10.14 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn awgrymu cyfrifoldebau eraill a ddylai fod yn rhan o gylch gwaith yr awdurdod goruchwylio newydd. Er mwyn cynnig enghraifft, awgrymodd un ymatebydd fod angen diffiniadau atodol o bosibl ar gyfer beth yw lagŵn o fewn ffiniau tomen.

Arian a Chyllid

10.15 Nododd nifer o'r ymatebwyr fod angen cyfraniad ariannol gan Lywodraeth y DU i sicrhau diogelwch tomenni yn y tymor hir. Nododd un ymatebydd:

"...yn y tymor hwy, mae angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chost gwaith adferol yn y tomenni glo sy'n weddill yng Nghymru, gan fod trwch y tomenni (os nad pob un) yn waddol gorffennol diwydiannol Cymru yn y cyfnod cyn datganoli".

10.16 Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at yr angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r ymrwymadau ariannu hirdymor sydd eu hangen ar y cynigion, gyda'r sylw canlynol:

"... efallai na fydd perchnogion tir unigol a/neu awdurdodau lleol yn gallu ariannu cyfrifoldebau ychwanegol".

10.17 Nododd un ymatebydd:

"... ni ddylai pwrs y wlad fod yn talu costau tomenni preifat, oherwydd bod y rhan fwyaf o dirfeddianwyr wedi caffael y tir gan y Bwrdd Glo Cenedlaethol am bris rhad yn y 1980au ac yn ymwybodol o'r risgiau a'r rhwymedigaethau o dan ddeddfau cyfredol".

Gweithdrefnau Ymateb Brys

10.18 Mynegodd sawl ymatebydd fod angen gweithdrefnau ymateb brys priodol. Nododd un ymatebydd fod angen rhagor o fanylion ar:

"... perchnogaeth/awduraeth, amserlenni a chyflenwi Cynlluniau Ymateb Brys Tomenni Glo. Ein barn ni yw mai perchennog y domen sy'n gyfrifol am sicrhau bod cynllun argyfwng wedi ei baratoi/ei roi ar waith – ond y dylid/y gellid ei gyfeirio at 'sefydliad' cyfrifol (endid cyfreithiol) i sicrhau bod 'perchnogaeth' y cynllun wedi'i ddiffinio ac yn glir".

10.19 Nododd dau ymatebydd ei bod yn bosibl bod angen dull tebyg i drefn gynllunio COMAH:

"...gan fod hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb ar berchennog y safle i baratoi cynllun "mewnol" pe bai symud yn dod i'r amlwg, mewn ardal lle mae llithriad yn bosibl, ac i'r perchennog gymryd camau pan fydd argyfwng yn codi".

Sylwadau unigol amrywiol

- *"...tra bod yr Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddwyd ar y cyd â'r ymgynghoriad hwn yn cyfeirio at effaith y cynigion ar blant, nid yw wedi cael ei ddatblygu'n ddigonol ac mae'n gyffredinol ei naws".*
- *"...ni ddylai unrhyw ddeddfwriaeth annog peidio â defnyddio, neu rwystro'r defnydd o wastraff pyllau glo i gynhyrchu cynnyrch ceramig etc, neu drawsnewid gwastraff pwll glo i agregau eilaidd, neu ailgylchu gwastraff pwll glo i gydrannau ac allforio'r cydrannau hynny i'w defnyddio yn y diwydiannau adeiladu neu mewn tanwydd neu eu defnyddio mewn prosesau diwydiannol megis cynhyrchu dur".*
- *"... [dylai] pob adnodd, cyfarwyddyd a mecanweithiau i alluogi cyflawni'r ddeddfwriaeth gael eu datblygu a'u rhannu ochr yn ochr â deddfu'r ddeddfwriaeth, oherwydd y gallai*

methiant i wneud hynny gymell anghysondebau a chreu amrywiaeth o broblemau. Dylid cynnal adolygiad o'r drefn gydsynio a thrwyddedu i adlewyrchu natur frys rhai gweithgareddau".

- *"...dylid ystyried sut i ddileu rhai safleoedd o'r gofrestr ar ôl gwaith adfer neu waredu deunydd o'r tomenni".*

Atodiad 1

Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo / Rhestr yr ymatebwyr

Rhif Cyf	Ymatebydd	Categori
001	Clive Payne	Unigolyn
002	Dienw	Unigolyn
003	Dienw	Unigolyn
004	Phil Thomas	Unigolyn
005	Christopher Wright	Unigolyn
006	Dienw	Unigolyn
007	Sefydliad y Peirianwyr Sifil	Corff proffesiynol
008	Dienw	Unigolyn
009	Gwyn Papur	Unigolyn
010	Hefin David AS	Cynrychiolydd etholedig
011	Dienw	Sefydliad
012	Cymdeithas y Tirfeddianwyr Cymru	Corff proffesiynol
013	John Davis a Scott O'Neill	Unigolion
014	Stephen Smith	Unigolyn
015	Dienw	Awdurdod lleol
016	Prifysgol De Cymru	Academia
017	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Corff cyhoeddus arall
018	Elizabeth Aldworth	Unigolyn
019	Tîm cloddio Network Rail	Cwmni preifat
020	CLILC	Corff cyhoeddus arall
021	Dienw	Awdurdod lleol
022	Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot	Awdurdod lleol
023	Awdurdod Lleol Torfaen	Awdurdod lleol
024	Ivor Richards	Cwmni preifat
025	Plaid Cymru	Cynrychiolydd etholedig
026	Trafnidiaeth Cymru	Corff cyhoeddus arall
027	Jacobs UK Limited	Cwmni preifat
028	Arolwg Daearegol Prydain	Corff proffesiynol
029	Dienw	Awdurdod lleol
030	Dienw	Awdurdod lleol
031	Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru	Corff cyhoeddus arall
032	Dienw	Awdurdod lleol
033	Plant yng Nghymru	Sefydliad trydydd sector
034	Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl	Corff cyhoeddus arall
035	Vivian Rees	Unigolyn
036	Steffan Parry	Cwmni preifat
037	Jenna Arnold	Corff cyhoeddus arall
038	Jenny Emmett a John Lawson	Corff cyhoeddus arall
039	Dominic Driver	Corff cyhoeddus arall
040	Roger Waters	Awdurdod lleol
041	Christian Hanagan	Awdurdod lleol
042	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	Sefydliad
043	Tim Wilkinson	Cwmni preifat
044	Nick Horsley	Cwmni preifat